

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) 2019

Hydref 2019

## 1. Cefndir

1. Gwnaed Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) 2019 gan Lywodraeth y DU ar 26 Medi 2019, a'u gosod gerbron Senedd y DU ar 1 Hydref 2019. Daw'r Rheoliadau i rym ar 31 Hydref 2019.
2. Ar 4 Hydref 2019 fe wnaeth Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ("y Gweinidog"), yn unol â Rheol Sefydlog 30A, osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (y Memorandwm) ar gyfer Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) 2019 gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.
3. Mae Rheol Sefydlog 30A yn nodi bod rhaid i aelod o'r Llywodraeth osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol mewn perthynas ag unrhyw offeryn statudol perthnasol a osodir gerbron Senedd y DU gan Weinidogion y DU, os yw offeryn statudol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

## 2. Y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

4. Mae'r Memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

"Prif nod y Rheoliadau yw i gywiro hen gyfeiriadau at Reoliad (CE) Rhif 1107/2009 ar osod cynnyrch amddiffyn planhigion ar y farchnad, yn dilyn diwygio y Rheoliad hwnnw gan Reoliad (UE) 2019/1009 sy'n



pennu y rheolau ar gyfer sicrhau bod cynnyrch gwrtaitth yr UE ar y farchnad.”<sup>1</sup>

**5.** Mae'r Memorandwm yn esbonio bod y diwygiadau'n ymwneud â deddfwriaeth ym meysydd plaladdwyr, dŵr a'r amgylchedd.

**6.** Mae'r Memorandwm yn nodi hefyd:

“Caiff y diwygiadau eu gwneud i sicrhau bod y llyfr statud yn gweithredu fel y bwriedir iddo cyn i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Y rheswm am hyn yw nad yw hen gyfeiriadau at ddeddfwriaeth o angenrheidrwydd yn cael eu dehongli fel cyfeiriadau at y ddeddfwriaeth gywir (wedi'i ddiweddarau) ac mae risg felly na fydd y llyfr statud yn gweithredu fel y'i bwriedir o ganlyniad i hynny.

Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn yn cyfeirio atynt wedi'u gosod yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, fydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig os nad oes gwrthwynebiad gan aelod o un o'r Tai Cyffredin. Os nad oes gwrthwynebiad o'r fath, bydd y darpariaethau sy'n diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir ato yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar 31 Hydref 2019.”<sup>2</sup>

**7.** Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn diwygio adran 43(3)d o *Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006*, sy'n ddeddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

**8.** Mae'r Memorandwm yn nodi fel a ganlyn:

“Barn Llywodraeth Cymru yw bod y ddarpariaeth sy'n diwygio Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn syrthio o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru o ran ei fod yn gysylltiedig â chynnyrch amaethyddol a gwrteithio. Ni chaiff y pynciau hyn eu rhestru fel cymalau cadw o dan Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006.”<sup>3</sup>

**9.** Ar 18 Hydref 2019, ysgrifennodd y Gweinidog atom yn nodi ei bod wedi bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol ar gyfer dadl ar 22 Hydref, ond

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru: Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ar gyfer Rheoliadau Plaladdwyr (Diwygio) 2019, paragraff 3

<sup>2</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraffau 6-7

<sup>3</sup> Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, paragraff 11

bod gwall gweinyddol yn golygu nad oedd hynny wedi digwydd.<sup>4</sup> Roedd yr ohebiaeth yn nodi'n benodol:

“Mae'r Rheoliadau yn destun y weithdrefn negyddol yn y Senedd, a gafodd eu gwneud cyn iddynt gael eu gosod, ac ar yr amod nad oes unrhyw Aelod Seneddol yn gweddïo yn eu herbyn, byddant yn dod i rym ar 31 Hydref 2019.

Roeddwn wedi bwriadu cyflwyno cynnig cydsyniad offeryn statudol i'w drafod ar 22 Hydref ond yn anffodus nid yw hyn wedi digwydd oherwydd camgymeriad gweinyddol. O'r herwydd nid oes amser i'r Cynulliad drafod y Rheoliadau cyn iddynt ddod i rym. Rwyf wedi gofyn i swyddogion sicrhau na fydd camgymeriad o'r fath yn digwydd eto.”

### 3. Ystyriaethau

**10.** Trafodwyd y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 21 Hydref 2019.<sup>5</sup>

### 4. Casgliad

**11.** Rydym yn fodlon ar y Memorandwm.

**12.** Nodwn sylwadau'r Gweinidog yn ei llythyr atom ar 18 Hydref 2019.

**13.** Fodd bynnag, rydym yn nodi bod y rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol ac felly maent yn destun dirymiad gan y naill Dŷ yn Senedd y DU. Rhaid nodi unrhyw wrthwynebiad erbyn 14 Tachwedd 2019.

**14.** Y dyddiadau allweddol mewn perthynas â'r rheoliadau hyn felly yw 31 Hydref 2019 (dyddiad dod i rym) a 14 Tachwedd 2019 (y dyddiad y dylid nodi gwrthwynebiad yn Senedd y DU).

**15.** Felly, gallai cynnig a gyflwynwyd ar 22 Hydref 2019 fod wedi cael ei drafod yn y Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Tachwedd 2019. Gallai canlyniad dadl o'r fath fod wedi llywio penderfyniad gan unrhyw aelod o'r naill Dŷ yn Senedd y DU i benderfynu a ddylid cyflwyno cynnig i ddirymu ai peidio.

---

<sup>4</sup> Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 18 Hydref 2019

<sup>5</sup> Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 21 Hydref 2019

---

**16.** Credwn felly y dylai cynnig fod wedi'i gyflwyno gan Lywodraeth Cymru ar y Memorandwm i'w drafod ar 5 Tachwedd 2019.